CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 3 Medi 2018**

Cadeirydd: Cyng Iwan Davies. Cyngr: Mrs Amanda Edwards, Ken Symmons, Hywel Davies, Mrs Nicky Redmond, Mrs Laura Holder, Steve Kings

Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr Mrs E Davies, G Morgan a'r CS Clive Davies.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**
Dim.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Mae pob cais cynllunio i'w weld ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.
*A180794* Llain gyferbyn â Sycharth, Lôn Helyg, Llechryd – Codi annedd
Ar ôl trafodaeth penderfynodd y Cyngor Cymuned gefnogi'r cais.

*Cynlluniau Lle*
Cytunwyd i geisio trefnu taith ysgol, ymweld â thafarn a bod yn bresennol yng Nghinio Nadolig yr Henoed os byddai hwnnw'n digwydd. Byddai sesiwn galw heibio'n cael ei threfnu ar gyfer y rhai nad oedden nhw'n debygol o fod yn bresennol yn yr un o'r rhain.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Cyng G Morgan ynglŷn â'r trefniadau GAN: Y Clerc

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Yn absenoldeb y Cynghorydd Sirol, roedd adroddiad ysgrifenedig wedi cyrraedd.

Roedd y pryderon parhaus ynglŷn â chyflwr man chwarae Glannant wedi eu nodi gan y CS Clive Davies. Cytunwyd i ofyn i'r CS Clive Davies drefnu cyfarfod gyda'r Gymdeithas Tai a'r Clerc yn bresennol os byddai hynny'n bosibl. Roedd y Cyngor Cymuned yn awyddus i'r ardal barhau'n fan chwarae naturiol oherwydd ystyrid ei bod yn anaddas ar gyfer cyfarpar chwarae ffurfiol.

Dywedodd y Cynghorydd Sirol fod presenoldeb da yn y Parti yn y Parc ac iddo fod yn ymarfer da i gael stondin yno gan y Cyngor Cymuned gyda'r tîm plismona cymunedol. Roedd yn dda ganddo ddweud bod cysylltiad wedi bod ar y Cynllun Lle a dywedodd bod cyllid wedi'i gytuno i ddechrau datblygu'r Cynllun ac amseru/cyllido'r amser dechrau. Roedd yn gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion ac yn cadeirio pwyllgor llywio De Ceredigion ar gyfer hyn.

Teimlai fod problemau o hyd gyda system CLIC CSC.

Nododd y problemau a oedd wedi'u mynegi ynglŷn â phosibilrwydd adeiladu anghyfreithlon yng Nghoedmor.

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng L Holder y dylid derbyn cofnodion y Cyfarfod Eithriadol ar 23.7.18 fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng S Kings a chytunwyd yn unfrydol.

**8. Materion yn Codi**

Nodwyd bod materion ynglŷn â llwybr cyhoeddus yn gysylltiedig â chais cynllunio a oedd wedi'i drafod gynt yn cael eu datrys gan CSC.

**9. Cyllid a Gweinyddu**

| | Talai | Am | banc | |
|---|---|---|---|---|
| 30.08.18 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |
| 3.9.18 | HMRC | | 4.20 | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y cartref | 25.00 | |
| | SE Davies | Cymhwyso cyflog oherwydd codiad | 18.52 | |
| | Mr E Rees | Glanhau'r bloc toiledau a'r cysgodfannau bws Gorff - Awst | 646.00 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio Ystafell | 16.00 | |
| 30.09.18 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |

Torch o flodau ar gyfer Sul y Cofio. Siec i Apêl Pabi Coch RBL. Cytunwyd i archebu'r dorch am gost o £17.

Cynigiwyd: Cyng Mrs A Edwards, eiliwyd gan y Cyng H Davies, cytunwyd yn unfrydol.

*Diwedd y Flwyddyn*

Archwiliad Cymwysedig o'r Hysbysiad am Hawliau Etholwyr

Dywedodd y Clerc mai'r dyddiad olaf i gymeradwyo'r cyfrifon yw 30 Mehefin. Bydd yr Archwilydd Allanol y gosod dyddiad pan fydd rhaid i'r Hysbysiad Etholwyr gael ei gyhoeddi, sef ym mis Mai. Yn anffodus roedd yn ymddangos bod postio'r hysbysiad cyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon diwedd blwyddyn yn derfynol wedi golygu bod y Cyngor wedi cael dyfarniad Archwiliad Amodol. Ymddiheurodd hefyd am iddi gynnwys Gŵyl y Banc mewn cyfnod hysbysiad statudol. Roedd y Cyngor wedi darparu gwybodaeth i Archwilydd Cymru ar gyfer yr arolwg fel y gofynnwyd ynglŷn â threfniadau'r archwiliad mewnol.

*Cyllideb*

Roedd arolwg wedi'i ddarparu o'r gyllideb wedi'i diweddaru. Roedd angen i'r Cyngor ystyried unrhyw brosiectau i'w cynnwys yng nghyllideb 2019/20. Roedd angen hefyd iddo gadw mewn cof, gan fod y praesept nawr yn cael ei dalu mewn tair rhan, y byddai angen digon o arian wrth gefn i dalu am unrhyw brosiect yn gynnar yn y flwyddyn ariannol. Gofynnwyd am i gysoniad banc gael ei ddarparu bob mis. Cytunwyd i ddiddymu hen sieciau hanesyddol: rhifau 703 £66 a 637 £15.

*Arolwg o Gynghorau Tref a Chymuned*

Cytunwyd, pe bae'n cael ei weithredu, y byddai ei effaith yn bellgyrhaeddol.

*Contract Torri Porfa*

Blychau Blodau – y gaeaf a 2019/20

Cytunwyd i ofyn i'r contractiwr presennol awgrymu planhigion ar gyfer misoedd y gaeaf nad oedd angen llawer o gynnal a chadw arnynt.

Ni fyddai plannu a chynnal a chadw'r blychau blodau yn cael ei ychwanegu at gontract cynnal a chadw'r tir. Byddai'r Cyngor yn gwahodd dyfynbrisiau ar gyfer plannu'r blychau a gofalu amdanynt am y tymor 2019/20.

Roedd copi drafft o'r contract torri porfa wedi'i ddarparu i'r Cynghorwyr i roi sylwadau arno. Byddai'n cael ei hysbysebu ar yr hysbysfyrddau o gwmpas y pentref, a byddai'r contractiwr presennol yn cael ei wahodd i gynnig dyfynbris am y gwaith.

*Biniau*

Cytunwyd mai dim ond un bin roedd angen ei adnewyddu yn y cae chwarae. Byddai bin ychwanegol yn ddymunol yn ardal y bont yn Adeilad y Mileniwm.

GWEITHREDU: Gweld a fyddai CSC yn darparu bin wrth y bont. Os na, y Clerc i gysylltu â'r contractiwr presennol i weld a fyddai'n fodlon gwacau'r bin newydd. Ar ôl cytuno ar ddewis, y Clerc i archebu nifer priodol o finiau i'w darparu i'r Cyng K Symmons. Wedyn byddai'r Cynghorwyr yn trefnu gosod y biniau.

Nodwyd bod gadael sbwriel yn anghyfreithlon yn frith mewn rhai ardaloedd yn y gymuned. Byddai'r Clerc yn cael gwybod am hyn ac am yr union leoliadau gyda lluniau os byddai'n bosibl. Wedyn byddai'r

Clerc yn rhoi gwybod i'r CS ar CLlC. Nodwyd efallai na fyddai'r Clerc yn cael yr adroddiadau ar unwaith ac y dylai'r Cynghorwyr ystyried rhoi gwybod i CSC eu hunain.

*Trwsio 'hen' arwynebau chwarae*
Roedd dyfynbris wedi dod ar gyfer trwsio'r hen arwynebau chwarae. Ar ôl trafodaeth cytunodd i Cynghorwyr y gallai'r gwaith o bosibl gael ei wneud rhyngddynt.
GWEITHREDU: y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gadarnhau wrth y Clerc fod y gwaith i gael ei wneud gan y Cynghorwyr.

Nodwyd bod Mr E Rees wedi storio 6 o deils wrth gefn ar gyfer y Cyngor.

*Gwyliau'r Clerc*
Cytunwyd dyddiadau gwyliau'r Clerc.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Llwybrau Troed*
Cytunodd y Cyng S Kings i anfon rhai dyddiadau o gwmpas at bobl sydd â diddordeb i fynd i gerdded rhai o'r llwybrau lleol, 4 neu 5 milltir ar y pellaf. Dywedodd bod angen gwaith ar rai llwybrau a bod CSC wedi cael gwybod ond nad oedd dim wedi'i wneud hyd yma. Cytunwyd i roi i'r Clerc restr o'r gwaith iddi hi ei gosod yn system CLlC CSC.

*Llain borfa Preseli View*
Cytunwyd na fyddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi cyfyngiadau parcio yn yr ardal pe byddent yn cael eu cynnig. O gofio bod yno leiniau llydan iawn, byddai lledu'r ffordd a'r gyffordd lawer iawn yn well. Roedd angen ystyried hefyd fynediad i leoedd parcio ac eiddo ar gyfer y rheiny a oedd yn oedrannus neu'n anabl.
GWEITHREDU: Rhoi gwybod i'r CS Clive Davies am ganlyniad trafodaeth a gofyn am i'r ffordd a'r gyffordd gael eu lledu.

**11. Amwynderau**
Blychau blodau – gweler Cyllid a Gweinyddu

*Ffin y Parc Ceir*
Roedd y Clerc wedi gofyn am gael gweld gweithredoedd teitl y Neuadd ynglŷn â mynedfeydd a ffiniau drwy'r parc ceir a'r cae chwarae. Cytunwyd bod angen mynd ar ôl y mater gyda Phwyllgor y Neuadd.
GWEITHREDU: Cynghorwyr a oedd yn aelodau o Bwyllgor y Neuadd i fynd â'r cais ymhellach.

*Hysbysfwrdd yn y parc ceir*
Roedd neges wedi'i hanfon eto at Arts4Wellbeing gan ddarparu manylion y prosiect. Y farn gyffredinol yn y Parti yn y Parc oedd y dylid tynnu'r hysbysfwrdd i lawr i greu man parcio ychwanegol, yn lle gwario arian ar yr hysbysfwrdd. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad o ryw fath o adnewyddu ond nid os oedd byddai'n gostus.
Dywedwyd bod yr hysbysfwrdd nawr yn cael ei gynnal gan 3 o'r 5 cysylltiad.
GWEITHREDU: Holi am ddyfynbris i wneud yr hysbysfwrdd yn ddiogel a'i adnewyddu GAN: Y Clerc

*Diffib*
Roedd y Cyng Mrs A Edwards wedi gofyn i Lewlec gysylltu â'r Clerc ynglŷn â gosod y cwpwrdd newydd. Dim cysylltiad hyd yma.

*Bloc toiledau*
Mae'n debyg fod y drws i'r storfa yn anodd ei gau/agor.
GWEITHREDU: Y Cyng S Kings i fynd i edrych.

*Cyflwr yr arwynebau chwarae 'newydd'.* Roedd y gosodwr wedi cael gwybod a dywedodd hwnnw fod y tywydd yn yr haf wedi effeithio ar y defnyddiau mewn llawer man.
GWEITHREDU: Y Cyng Mrs A Edwards i siarad â'r contractiwr.

*Trwsio / adnewyddu'r 'hen' arwynebau chwarae – cyllid a gweinyddu*

*Biniau – gweler cyllid a gweinyddu*

Roedd y contractwyr wedi cael gwybod fod y *llwybr tarmac* wedi gwaethygu a gofynnwyd am eu sylwadau.
Dywedwyd y byddent yn ymweld â'r safle i gywiro'r problemau. Byddid yn eu holi am gost gosod ymylon palmant yn lle'r ymylon pren.

*Yr Aradr.* Roedd wedi'i thrwsio a'i rhoi nôl yn ei lle. Byddai'r Cyngr K Symmons a H Davies yn ystyried sut i'w gwneud yn ddiogel.

*Man chwarae Glannant* – gweler adroddiad y Cyng Sirol

**12. Prosiectau'n parhau**
Cyn gynted ag y byddai blwch y diffibrileiddiwr wedi'i osod, byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Tîm Heddlu Cymunedol ynglŷn â dewis marc DNA.

**13. Digwyddiadau**
*Gwasanaeth y Cofio*
Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Parch. Kent ac yn gweithio gydag ef ar drefn y gwasanaeth. Awgrymwyd y gallai fod gan y Cyng G Morgan wybodaeth am gornetydd ar gyfer y gwasanaeth. Cytunwyd y byddai angen ychydig seddau yng nghorff yr hen eglwys. Awgrymwyd efallai y gellid benthyca'r cadeiriau plastig o'r Neuadd pe baent yn cael eu cludo i'r Eglwys a'u dychwelyd.

*Goleuadau'r Nadolig*
Awgrymwyd 6 Rhagfyr am 6.30pm fel dyddiad dros dro. Byddai'r Cyng Mrs N Redmond yn cysylltu â'r Ysgol ynglŷn â chanu carolau.

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**15. Gohebiaeth + Gohebiaeth e-bost**
Nodwyd yr ohebiaeth:
Cynigion ar gyfer 29 Medi Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Nodwyd mai ychydig iawn o ddiddordeb o hyd oedd mewn cymryd rhan yn y cynllun gwylio cyflymdra cymunedol.

Roedd y palmant gyferbyn â'r fynedfa i Glannant yn dechrau chwalu.
GWEITHREDU: Y Clerc i gysylltu â CSC.

Sylwyd nad oedd yr arwydd 'Caution' wrth nesáu at bentref Cenarth wedi bod yn gweithio ers cryn amser. Ond nawr roedd yn gweithio drwy'r nos, nid yn unig pan fyddai traffig yn nesáu.

Cytunwyd, pe bae niwed yn digwydd i'r lleiniau ym Maesyderi, y byddai llun yn cael ei dynnu a'i anfon at y Clerc.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 1.10.18 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim mater arall, daeth y cyfarfod i ben am 9pm.*